

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
20 Ionawr 2022

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022")

Mae Rheoliadau 2022 yn pennu'r lluosydd ardrethu annomestig ("NDR") ar gyfer Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23. Maent yn adlewyrchu'r penderfyniad a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021 i rewi'r lluosydd, yn hytrach na defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("CPI") i gyfrifo'r cynnydd yn y lluosydd.

Yn dilyn hynt Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") – a ddiwygiodd Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") mewn perthynas â Chymru - y sefyllfa ddiodyn newydd a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol yw cymhwyso cynnydd blynyddol yn unol â'r CPI. Cyn Deddf 2021, y sefyllfa ddiodyn oedd cynyddu'r lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI"). Gan fod y sefyllfa bolisi ar gyfer 2022-23 yn wahanol i'r sefyllfa ddiodyn newydd (h.y. rhewi'r lluosydd yn hytrach na'i gynyddu yn ôl CPI), mae angen Rheoliadau 2022.

Cyfrifo'r Lluosydd

Mae'r lluosydd yn cael ei gymhwyso i werth ardrethol ("RV") pob eiddo annomestig i gyfrifo ei fil NDR.

Y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethi annomestig mewn blynyddyn lle nad oes ailbrisiu yw:

$(A \times B) / C$.

A yw'r lluosydd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol

B yw'r CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol flaenorol

C yw'r CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol ddwy flynedd cyn hynny.

Mae gan Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwyso'r is-baragraffau hynny yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n ymdrin â'r mynegai CPI (h.y. is-baragraffau (5A), (5B), (9A) a (9B) o baragraff 5).

Caiff Gweinidogion Cymru naill ai amnewid cyfeiriadau at CPI ar gyfer mynegai arall neu ddarparu ffigur penodedig ar gyfer naill ai B a/neu C.

Mewnosodwyd y pwerau hyn yn Neddf 1988 gan Ddeddf 2021. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd pwerau'n gyfyngedig a'r dull a ddefnyddiwyd i bennu lluosydd gwahanol oedd addasu'r ffigur ar gyfer B. Er mwyn darparu eglurder a chysondeb, ac o gofio bod y newid yn gymwys i un flwyddyn ariannol yn unig, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud y newid ar gyfer 2022-23 drwy addasu'r ffigur ar gyfer B yn lle'r ffigur CPI. Nid yw hyn yn arwain at unrhyw gynydd yn y biliau ardrethi 2022-23 i'w talu gan fusnesau a pherchnogion eiddo annomestig eraill, o'i gymharu â chynnydd mewn biliau ardrethi, a fyddai'n wir pe bai'r ffigur CPI ar gyfer B yn cael ei ddefnyddio.

Er mwyn cyfrifo'r ffigur priodol ar gyfer rhewi'r lluosydd, mae'n ofynnol i'r gwerth am B wedi'i rannu gan y gwerth am C fod yn hafal i 1. Gan fod C wedi'i bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol fel CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol ddwy flynedd cyn hynny, rhaid i'r ffigur ar gyfer B fod y ffigur hwn hefyd. Ar gyfer 2022-23, cyfrifwyd B fel 109.1, i gyfateb i'r gwerth am C, a bennwyd yn CPI ar gyfer mis Medi 2020.

Mae hyn yn golygu bod y lluosydd ar gyfer 2022-23 yn aros yn 0.535, yn hytrach na chynyddu i 0.551.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Nodir y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud Rheoliadau 2022 ym mharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'n darparu na fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(13A), wrth ei gymhwysu i flwyddyn ariannol benodol, yn effeithiol oni chaiff ei gymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd.

Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2022 gael eu cymeradwyo gan y Senedd cyn i'r pleidleisiau ar *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* (setliad terfynol llywodraeth leol a setliad terfynol yr heddlu) gael eu cynnal, neu cyn 1 Mawrth, p'un bynnag sydd gynharaf. Mae'r gofyniad hwn yn codi oherwydd bod y lluosydd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfrifo cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn y setliadau blynyddol. Mae'r ddadl ar setliad terfynol yr heddlu ar gyfer 2022-23 wedi'i hamserlennu ar gyfer 15 Chwefror. Mae'r ddadl ar setliad terfynol llywodraeth leol wedi'i hamserlennu ar gyfer mis Mawrth. Mae'r ddadl i gymeradwyo Rheoliadau 2022 wedi'i hamserlennu ar gyfer 15 Chwefror 2022, cyn y ddadl ar Setliad yr Heddlu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

O dan Ddeddf 1988, ar gyfer blynyddoedd ariannol lle nad yw rhestrau ardrethu newydd yn gymwys (h.y. yr holl flynyddoedd nad ydynt yn flynyddoedd ailbrisio), y sefyllfa ddiodyn ar gyfer pennu'r lluosydd ardrethu annomestig i Gymru yw cymhwysu'r fformiwla a nodir ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Elfen yn y fformiwla honno yw'r CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw. Nid yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022 yn flwyddyn ailbrisio ac, felly, ni fydd rhestr ardrethu newydd.

O dan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwysu is-baragraffau (5A), (5B), (9A) a (9B) o baragraff 5 o fewn yr Atodlen honno. Effaith hyn yw galluogi rheoliadau naill ai i ddefnyddio mynegai gwahanol i CPI, neu i bennu ffigurau amgen ar gyfer B a/neu C. Gan fod offerynnau statudol sy'n newid y lluosydd mewn blynyddoedd blaenorol wedi mabwysiadu'r dull o newid y ffigur ar gyfer B, bernir y byddai'r dull hwn yn darparu'r lefel fwyaf o eglurder deddfwriaethol. Y pŵer hwn yw'r pŵer y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei arfer wrth wneud Rheoliadau 2022.

Mabwysiadodd Gweinidogion Cymru'r dull o gynyddu'r lluosydd drwy ddefnyddio CPI drwy newid y ffigur ar gyfer B, yn hytrach na'r RPI, rhwng 2018-19 a 2020-21,

drwy gyfrwng offerynnau statudol. Cafodd darpariaethau sy'n galluogi'r newid hwn i gael ei wneud yn barhaol ei gynnwys yn Neddf 1988 gan Ddeddf 2021. Ar gyfer 2021-22, penderfynwyd rhewi'r lluosydd, gan ofyn, unwaith eto, am is-ddeddfwriaeth. Penderfynwyd hefyd y bydd y lluosydd yn cael ei rewi ar gyfer 2022-23, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2022 gael eu gwneud gan fod hyn yn symudiad o'r sefyllfa ddiodyfyn newydd a nodir ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Yn unol â hynny, wrth wneud Rheoliadau 2022, mae'r lluosydd yn aros yr un ffigur ers 2020-21.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, ar ôl gwneud Rheoliadau 2022, eu gosod gerbron y Senedd i'w cymeradwyo. Mae Rheoliadau 2022 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a rhaid i'r Senedd eu cymeradwyo i fod yn effeithiol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Effaith Rheoliadau 2022 fydd rhewi'r lluosydd NDR, yn hytrach na chynyddu yn ôl CPI ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23. Drwy rewi'r lluosydd NDR, bydd y lluosydd yn cael ei bennu yn 0.535.

Bydd hyn yn golygu y bydd perchnogion a deiliaid eiddo annomestig yng Nghymru yn cael biliau ardrethi is ar gyfer 2022-23 nag y byddent pe bai CPI yn cael ei ddefnyddio.

Bydd Rheoliadau 2022 yn gymwys i 2022-23 yn unig.

Gwnaed offerynnau tebyg i sicrhau newid i gynnydd yn ôl CPI yn hytrach na'r RPI ar gyfer 2018-19 i 2020-21, ac ar gyfer rhewi'r lluosydd yn 2021-22.

Bydd holl berchnogion neu feddianwyr eiddo annomestig sy'n talu ardrethi yn elwa o'r newid. Bydd hyd yn oed eiddo sy'n cael symiau sylweddol o ryddhad ardrethi yn elwa, gan y bydd y rhwymedigaeth weddilliol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio lluosydd is.

Mae'r holl ardrethi annomestig a gesglir yng Nghymru'n cael eu rhoi mewn cronfa ganolog ac yn cael eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd fel rhan o setliadau blynyddol llywodraeth leol. Gelwir y cyfanswm i'w ddosbarthu fel hyn yn Swm Dosbarthadwy. Fe'i cyfrifir drwy gymhwyso'r lluosydd i gyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig y gwerth ardrethol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw warged neu ddiffyg a gariwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r swm dosbarthadwy yn un o gydrannau allweddol setliadau refeniw blynyddol llywodraeth leol ac mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd fel rhan o *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol*. Mae angen i'r lluosydd, felly, gael ei bennu cyn y gellir rhoi trefn derfynol ar y setliad blynyddol.

Mae diben clir i'r polisi y tu ôl i'r ddeddfwriaeth. Ei nod yw cefnogi twf economaidd a lleihau'r rhwymedigaeth trethi lleol i fusnesau a thalwyr ardrethi annomestig eraill yng Nghymru, gan sicrhau nad ydynt o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Bydd rhewi'r lluosydd yng Nghymru, yn hytrach na'i gynyddu yn ôl CPI, yn lleihau'r incwm i'r gronfa ardrethi annomestig yn 2022-23. Bydd y gostyngiad yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei adlewyrchu yn y cyfrifiadau ar gyfer setliadau llywodraeth leol, fel nad oes unrhyw effaith ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol na chyllidebau'r heddlu.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi y tu ôl i Reoliadau 2022. Mae'r cynigion o fudd i bob trethdalwr yng Nghymru ac nid oes unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol a gwasanaethau'r heddlu. Mae'r sefyllfa bolisi yn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru'n cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Opsiynau

Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu'r lluosydd ar gyfer 2022-23 yn ôl CPI ym mis Medi 2021 (3%), gan arwain at luosydd o 0.551.

Opsiwn 2 – Rhewi'r lluosydd

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd yn y lluosydd, gan arwain at luosydd o 0.535.

Opsiwn 3 – Lleihau'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostwng y lluosydd ar gyfer 2022-23. Er enghraifft, byddai lleihau'r lluosydd 1.3%, yn arwain at ffigur o 0.528.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd

Mae'r canlynol yn dangos effaith defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd ar fil ardrethi annomestig eiddo.

Er enghraifft, os oes gan eiddo werth ardrethol (RV) fel y'i haseswyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió o £15,000, y bil ardrethi ar gyfer 2021-22 (cyn unrhyw ryddhad) fyddai:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai cymhwyso CPI yn arwain at fil ardrethi blynyddol ar gyfer 2022-23 o:

$$RV \quad £15,000 \times 0.551 = £8,265$$

Y cynnydd yn y tâl blynyddol, felly, fyddai £240. Gan mai dyma'r sefyllfa a nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth sylfaenol, ni fyddai unrhyw gost i Lywodraeth Cymru wrth fynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

Opsiwn 2 – Rhewi'r lluosydd

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd mewn biliau ardrethi ar gyfer pob eiddo annomestig. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiwn 1.

Y bil ardrethi ar gyfer 2021-22 oedd:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai rhewi'r lluosydd ar gyfer 2022-23 yn rhoi bil o:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

Ni fyddai rhewi'r lluosydd yn gweld unrhyw newid mewn rhwymedigaeth ardrethi ar gyfer yr eiddo, gyda chyfraddau £240 yn is na phe bai'r lluosydd yn cynyddu yn ôl CPI.

Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion i dalwyr ardrethi annomestig ledled Cymru tua £34.5m yn 2022-23. Byddai hyn yn arbediad cylchol gan na ellir cynyddu'r lluosydd ar lefel uwch na CPI yn y dyfodol. Mae'r arbediad hwn yn ychwanegol at yr arbedion a wnaed yn sgil rhewi'r lluosydd yn 2021-22.

Opsiwn 3 – Lleihau'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad mewn biliau ardrethi ar gyfer pob eiddo annomestig. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiynau 1 a 2.

Y bil ardrethi ar gyfer 2020-21 oedd:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

Byddai gostyngiad o 1.3% yn y lluosydd ar gyfer 2021-22 yn rhoi bil o:

RV £15,000 x 0.528 = £7,920

Felly, byddai gostyngiad o £105 yn yr ardrethi ar gyfer yr eiddo. Byddai'r ardrethi, felly, £105 yn is na phe bai'r lluosydd yn cael ei rewi, a £345 yn is na phe bai'r lluosydd yn cynyddu yn ôl CPI.

Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion i dalwyr ardrethi annomestig ledled Cymru tua £49.6m yn 2022-23. Byddai hyn yn arbediad cylchol.

Dewis Opsiwn

Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost o rewi neu leihau'r lluosydd (Opsiynau 2 a 3) ac fe fyddai'n gost gylchol. Ni fyddai unrhyw effaith ariannol ar yr awdurdodau lleol a gwasanaethau'r heddlu. Mae Opsiwn 2 yn golygu na fyddai talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, o ran sicrhau nad yw biliau ardrethi'n cynyddu. Cydnabyddir y byddai Opsiwn 3 yn mynd ymhellach, wrth leihau biliau i dalwyr ardrethi ac, wrth wneud hynny, byddai'n rhoi mwy o faich ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefir. Mae hyn yn cydbwysu fforddiadwyedd ac awydd Llywodraeth Cymru i gefnogi talwyr ardrethi gyda'u biliau.

Dadansoddi effeithiau eraill

Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)

Mae rhewi'r lluosydd yn rhoi cymorth i bob talwr ardrethi a allai helpu i atal caledi. Mae hefyd yn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eu rhoi o dan

anfantais o'u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr lle mae rhewi hefyd yn berthnasol.

CCUHP

Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

Y Gymraeg

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

Cydraddoldebau

Ni nodwyd effeithiau penodol, boed cadarnhaol neu negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd rhewi'r lluosydd yn cynorthwyo pob talwr ardrethi ac, o'r herwydd, bydd yn helpu i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru lewyrchus a mwy cyfartal.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

Bydd rhewi'r lluosydd o fudd i bob talwr ardrethi, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn y sectorau gwirfoddol, elusennol ac nid-er-elw.

Asesu'r Gystadleuaeth

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i Reoliadau 2022. Gan fod y newid o fudd i bob trethdalwr, ni nodir unrhyw effaith ar gystadleuaeth yng Nghymru. Mae rhewi'r lluosydd yn golygu nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU.

Adolygiad ar ôl Gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fonitro effaith y newid ar y gronfa ardrethi annomestig.